

Datganiad Disgwyliad Cafcass Cymru Cynllunio a Chofnodi Achosion

Yn ôl Gofal Cymdeithasol Cymru – Cod Ymarfer Proffesiynol, mae'n ofynnol i Gyngorwyr Llys Teulu (FCA) a Gweithwyr Cymdeithasol Llys Teulu (FCSW) gadw cofnodion clir a chywir yn unol â gofynion cyfreithiol a lleoliad gwaith. Mae'r Cod Ymarfer Proffesiynol yn pennu'r safonau y mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol gydymffurfio â hwy er mwyn bodloni gofynion cofrestriad proffesiynol. Mae gofynion arfer cynllunio a chofnodi achosion wedi'u cefnogi ymhellach yng ngweithdrefnau mewnol Cafcass Cymru. Mae Cafcass Cymru'n disgwyl i bob FCA a FCSW gynnal y safonau proffesiynol hyn yn eu harfer.

Bydd FCA a FCSW yn cofnodi gwybodaeth allweddol yn electronig yn ystod pob cam o achos ym Model Cynllunio a Chofnodi Achosion Dadansoddol Cafcass Cymru; mae hyn wedi'i osod yn ein system electronig ddiogel o'r enw IRIS (System Cofnodi Gwybodaeth Integredig). Mae'r model yn cofnodi gwybodaeth allweddol o'r pwynt cyswllt hyd at ddiwedd achos (cyfweiliadau/cyfarfodydd/cyfathrebu) ac yn galluogi ystyried adnoddau asesu ac ymchwil drwy ddull dadansoddol.

Mae'r model cynllunio a chofnodi achosion wedi'i gynllunio i gefnogi a dangos tystiolaeth o ddadansoddi a gwneud penderfyniadau, gan lywio'r adroddiad llys o ganlyniad i hynny.

- Mae canlyniadau gwell i blant yn fwy tebygol pan fo paratoi a chynllunio ar waith.
- Mae cynlluniau achos yn nodi'r hyn y mae angen ei wneud ac yn galluogi canolbwyntio ar y plentyn a'r asesiad.
- Mae cynlluniau achos yn rhoi tystiolaeth o'r sail resymegol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

- Mae cynlluniau achos yn cynnig dadansoddiad o wybodaeth a gasglwyd a'r canlyniadau gorau i blant.
- Bydd y cynllun achos yn nodi pa adnoddau asesu/ymchwil (os o gwbl) fyddai orau i lywio'r asesiad.



- Bydd y cynllun achos yn nodi'r materion allweddol yn yr achos, y camau i fynd i'r afael â'r materion hynny, amserlenni, y canlyniadau i'w cyflawni a sut y caiff y rhain eu hadolygu.
- Mae cofnodi achosion yn sicrhau bod cofnod wedi'i ddogfennu o sut mae'r sefydliad yn ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol unigol.
- Mae cofnodi achosion yn helpu i ganolbwyntio gwaith y FCA/FCSW ac yn cynorthwyo partneriaethau effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth gyda chanolbwynt clir ar anghenion a chanlyniad gorau'r plentyn.
- Mae'n rhoi tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad llys ac unrhyw ymchwiliadau ac ymholiadau.

Bydd FCA/FCSW yn paratoi cynllun achos yn brydlon o ddechrau achos. Bydd cynlluniau achos yn cael eu diweddarw wrth i'r asesiad symud yn ei flaen.

Mae'n ofynnol i FCA/FCSW gwblhau pob cofnod achos yn electronig. Efallai y bydd y FCA/FCSW yn llunio nodiadau/cymorth i'r cof mewn llawysgrifen yn ystod cyfarfod i gynorthwyo yn y broses hon, ond yna rhaid trosglwyddo'r wybodaeth allweddol i cofnod achos electronig. Ni fydd nodiadau mewn llawysgrifen yn cael eu cadw.

Rhaid gwneud cofnodion electronig yn brydlon er mwyn cael eu hystyried yn gredadwy mewn cyd-destun cyfreithiol. Hefyd, rhaid i'r cofnod electronig fod yn glir, yn gywir ac yn nodyn cytbwys o'r wybodaeth allweddol a gasglwyd.

Dylai cofnodion achos bob amser fod yn gryno, yn ddadansoddol ac yn canolbwyntio ar y mater(ion) a bennwyd gan y llys, gyda ffocws clir ar y plentyn.

Gall cofnodion achos electronig gael eu datgelu mewn achos llys, ymchwiliadau cwyn mewnlol, archwiliadau achos mewnlol ac ymholiadau eraill.

Pan fo llysoedd yn gwneud cais am ddatgeliad, mae Cafcass Cymru'n disgwyl y rhoddir rhesymau clir o ran pam mae angen cofnod penodol. Dylai datgelu gael ei gyfyngu i gofnodion penodol sy'n berthnasol i'r mater llys a nodwyd.

Mae Cafcass Cymru'n cymryd gofal mawr i sicrhau bod y wybodaeth a gawn gan bobl ac amdanynt, yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliad Cyfferdinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Ceir rhagor o wybodaeth yma:

<https://beta.llyw.cymru/cafcass-cymru/sut-yr-ydym-yn-defnyddio-eich-gwybodaeth>

